**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref LGH Cttee Actions - 24/05/23

John Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Mehefin 2023

Annwyl John,

Diolch yn fawr am eich e-bost yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ddydd Mercher 23 Mai. Rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn tri maes:

o adroddiad Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar werth cymdeithasol pêl-droed yng Nghymru;

o enghreifftiau o ble mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cyd-leoli gwasanaethau; a

o unrhyw werthusiad a/neu dystiolaeth ynghylch mesurau effeithlonrwydd gwahanol fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden a llyfrgell.

**Gwerth cymdeithasol pêl-droed yng Nghymru:**

Cymerodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ran mewn astudiaeth UEFA yn 2021 gyda'r nod o ddangos manteision cyfranogi mewn pêl-droed. Crëwyd Model Enillion Strategol ar Fuddsoddiad UEFA (SROI) i ddarparu dull i Gymdeithasau Cenedlaethol ddeall ac arddangos gwir werth economaidd a chymdeithasol cyfranogi mewn pêl-droed drwy asesu gwariant unigolion sy'n gysylltiedig â phêl-droed, gellir gweld adroddiad ar y model a ddatblygwyd yma Microsoft Word - UEFA SROI Final Report- Final 22.4.21[59].docx (knvb.nl).

Fel rhan o'r rhaglen hon, cynhaliodd FAW arolwg yn 2021 ('Gwerth Pêl-droed yng Nghymru') yn gofyn i unigolion rannu gwybodaeth am eu cyfranogiad i bêl-droed, gwariant blynyddol ar bêl-droed a chymorth i glybiau proffesiynol.

Mae'r ffigurau a adroddwyd o'r arolwg, a gynhaliwyd yn hydref 2021, yn dangos bod pêl-droed yng Nghymru wedi cyfrannu £263m i economi Cymru a bydd hyn yn codi i £267m erbyn 2026 (Football: Wales' grassroots game worth £550m, report says - BBC News). Mae'r offeryn hefyd yn galluogi cymdeithasau i nodi ac adrodd ar effaith atal cymdeithasol a iechyd ac roedd hyn yn dangos effaith gwerth £84m a £205m yn y drefn honno yng Nghymru. Ni chyhoeddwyd adroddiad mewn perthynas â Chymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Enghreifftiau o ble mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cyd-leoli gwasanaethau**:

O ran cyd-leoli gwasanaethau llyfrgell gellir darparu cyllid o wahanol feysydd o Lywodraeth, yn enwedig Llywodraeth Leol a Chyllid. Yn fy mhortffolio, fe wyddoch ein bod yn ariannu'r Gronfa Grantiau Trawsnewid Cyfalaf ar gyfer llyfrgelloedd, amgueddfeydd a gwasanaethau archifau lleol. Mae'r cyllid i gefnogi cyd-leoli gwasanaethau wedi cynnwys:

Caerdydd:

• **2023-24 £147,000 Cynyddu Atal a Chymorth trwy Bibliotherapi**. Bydd hyn yn darparu adnoddau llyfryddiaethau mewn ysbytai lleol a chanolfannau cleifion i gefnogi cleifion er mwyn rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn well.  Bydd defnyddwyr yn gallu cyrchu'r llyfrau 24 awr y dydd gan ddefnyddio eu cerdyn llyfrgell a'u dychwelyd naill ai i'r peiriant neu i'w llyfrgell leol.  Byddai ychwanegu peiriannau o fewn y lleoliadau hyn yn golygu y gallai pobl nad ydynt o bosibl yn ymweld â'r llyfrgell ar hyn o bryd yn cael mynediad at lyfrau pan fydd eu hiechyd yn flaenllaw yn eu meddyliau fel claf mewnol neu gallant fynd â'r llyfr adref gyda hwy.

• **2022-23 £80,000 Adnewyddu Llyfrgell Plant Caerdydd.** Mae'r llyfrgell i blant wedi'i lleoli yng Nghanolfan Canol Dinas Caerdydd. Ers ei adnewyddu mae aelodaeth newydd i blant wedi cynyddu 9%, a phresenoldeb wedi cynyddu 8%.
Conwy:

• **2018-19 £300,000 Canolfan Ddiwylliannol Conwy**. Gwelodd y prosiect hwn gyd-leoli gwasanaethau llyfrgell a threftadaeth i wella’r dull o reoli a chael mynediad at gasgliadau. Mae'n gyfleuster ar y cyd ar gyfer llyfrgell, gwasanaeth archif ac amgueddfa.
Gwynedd:

• **2019-21 £120,000 Neuadd Dwyfor**. Mae buddsoddiad wedi cefnogi darparu un gwasanaeth ar fodel gweithio a fydd yn gweld tîm y llyfrgell a thîm theatr/sinema yn cefnogi ei gilydd gan roi anghenion y defnyddiwr yn ganolog, a galluogi'r llyfrgell i fod ar agor y tu allan i oriau staffio craidd.

Castell-nedd Port Talbot

• **£6.5m Canol Tref Castell-nedd**.  Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ailddatblygu safle segur ac wedi darparu cynllun hamdden, lles a manwerthu mawr yng nghanol tref Castell-nedd. Mae'r safle yn cynnwys pwll nofio, campfa, gofod  manwerthu, gofal plant a llyfrgell. Cost y prosiect oedd tua £16m, gyda chyfraniad o £6.5m gan raglen adfywio Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Abertawe:

• **2024-2025 £300,000 Llyfrgell Ganolog @ Canolfan Gymunedol Canol y Ddinas**. Adleoli'r Llyfrgell Ganolog fel rhan o gynlluniau adfywio canol y ddinas ar gyfer cyd-leoli gwasanaethau llyfrgell fel rhan o brosiect ehangach Canolfan Gymunedol Canol y Ddinas ar gyfer trosglwyddo ystod o wasanaethau awdurdodau lleol i hen adeilad BHS, gan gynnwys yr archif, y Ganolfan Gyswllt, ac Opsiynau Tai. Fel cyfanswm, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £5.8m yn y prosiect £11m hwn.

Sir Benfro:

• **2018-2019 £120,000 Hwb Cymunedol Neyland**. Roedd y llyfrgell yn rhan o brosiect i ail-leoli clwb Athletau Neyland yn ganolfan gymunedol gan leoli gwasanaethau'r cyngor gyda gwasanaeth llyfrgell sy’n cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr.

Hefyd, mae Sir Benfro wedi derbyn y canlynol drwy'r rhaglen Trawsnewid Trefi:

• **£2,060,688 Cei De Penfro**. Bydd cam cyntaf y prosiect hwn yn golygu adnewyddu 5/6 Castle Terrace, dymchwel ac ailgodi rhif 6 Castle Terrace, tirwedd a thriniaethau tir y cyhoedd a chysylltiad Northgate Street â lefel a chei newydd y caffi. Y nod yw darparu adeilad amlddefnydd o ansawdd uchel sy'n cynnwys llyfrgell, hyb cymunedol, canolfan ymwelwyr Harri Tudur a chaffi. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £2,060,688, gyda £1,264,312 arall wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. Disgwylir y bydd y broses o osod y tu mewn wedi'i gwblhau erbyn canol mis Mawrth 2025.

**Gwerthuso a/neu dystiolaeth ynghylch mesurau effeithlonrwydd gwahanol fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden a llyfrgell:**

Mae modelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden a llyfrgell yn amrywio ar draws awdurdodau lleol (ALlau). Mater i'r ALl yw penderfynu pa fodel sy'n diwallu anghenion eu cymuned orau. Ni wyddom am unrhyw dystiolaeth benodol o ran effeithlonrwydd modelau penodol yng Nghymru. Mae rhai astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at effeithlonrwydd modelau gwasanaeth gwahanol yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys:

Tystiolaeth o A new delivery model for Peterborough City Council's library service | Local Government Association sy'n defnyddio OpenAccess + yn nodi fod 20% yn llai o gostau a 50% yn fwy yn ei ddefnyddio.

Mae Libraries Unlimited yn Nyfnaint yn Gwmni Cydfuddiannol Gwasanaeth Cyhoeddus. Cafwyd £1.5 miliwn o arbedion yn ei dwy flynedd gyntaf. Case study: Libraries Unlimited (formerly Devon Library Service) (mutualventures.co.uk)

Mae'r canlynol yn nodi rhywfaint o ymchwil i wahanol fodelau, ond nid ydynt yn gwneud sylwadau penodol ar fesurau effeithlonrwydd:

Library case studies: different delivery models | Local Government Association

Libraries shaping the future: good practice toolkit - GOV.UK (www.gov.uk)

mae gan adran 3 astudiaethau achos o fathau o fodelau cyflenwi.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth